OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 2945 (Cy.244)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Sir Benfro) 2010

Gwnaed - - - - 8 Rhagfyr 2010
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 14 Rhagfyr 2010
Yn dod i rym - - 1 Chwefror 2011

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan baragraff 8(1) o Atodlen 8 a pharagraff 3(1) o Atodlen 10 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004(**1**), ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru(**2**).

Mae Cyngor Sir Penfro wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru ar iddynt wneud gorchymyn o dan y pwerau hyn mewn perthynas â'r cyfan o'i ardal.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â phrif swyddog Heddlu Dyfed Powys yn unol â gofynion paragraffau 8(3) o Atodlen 8 a 3(4) o Atodlen 10 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004.

Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Sir Benfro) 2010 a daw i rym ar 1 Chwefror 2011.

Dynodi ardal gorfodi sifil ac ardal gorfodi arbennig

2.—(1) Mae Gweinidogion Cymru yn dynodi'r ardal a ddisgrifir ym mharagraff (2) yn—

(a) ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio; a

(b) ardal gorfodi arbennig.

(2) Yr ardal a ddynodir yw Sir Benfro.

(**1**) 2004 p.18.

(**2**) Mae'r pwerau hyn yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, yn unol â hwy Gweinidogion Cymru yw'r 'awdurdod cenedlaethol priodol' o ran Cymru o dan adran 92(1) o Ddeddf Rheoli Traffig 2004.